

1. Math o gais

Cynlluniau Llawn

Mae angen cyflwyno lluniadau manwl i'r awdurdod lleol ar gyfer y math hwn o gais, ynghyd â'r ffi berthnasol am y gwaith a wneir. Gwirir y cynlluniau a rhoddir hysbysiad o benderfyniad. Mae'r dull hwn yn eich galluogi i gael cadarnhad bod y cynlluniau a'r manylebau'n cydymffurfio â gofynion y rheoliadau.

Hysbysiad Adeiladu

Mae'r math hwn o gais yn weithdrefn symlach, ond ni ellir ei defnyddio pan fo Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol, neu ar gyfer gwaith sy'n cynnwys adeiladu adeilad sy'n wynebu stryd breifat, neu er mwyn gwneud gwaith adeiladu allanol sy'n cynnwys adeiladu dros garthffos gyhoeddus. Gofynnir am fanylion sylfaenol a'r ffi berthnasol. Os yw'r gwaith yn cynnwys adeiladu adeilad neu estyniad, dylai'r Hysbysiad gyd-fynd â chynllun ar raddfa nad yw'n llai na 1:1250 maint a safle'r adeilad, neu'r adeilad fel y'i estynnir, a'i berthynas â ffiniau cyfagos. Ni wirir y cynlluniau, felly ni roddir hysbysiad cymeradwyo. Yn lle hynny, caniateir i'r gwaith ddechrau ac archwilir y safle yn rheolaidd ar adegau adeiladu a gytunir. Os bydd amheuaeth am agweddau penodol ar y gwaith adeiladu yn ystod y rhaglen archwilio, gofynnir am fanylion a chynlluniau i'w harchwilio.

Rheoleiddio

Mae'r math hwn o gais ar gyfer gwaith y gallwch fod wedi'i wneud heb gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu. Os cafodd y gwaith ei wneud ar ôl 11 Tachwedd 1985, mae gweithdrefn y gallwch ei defnyddio i gael caniatâd mewn adolwg. Dylech gyflwyno dau gopi o gynlluniau sy'n dangos y gwaith cynt ac wedyn gyda manylion adeiladu llawn, ynghyd â ffurflen gais rheoleiddio a'r ffi briodol. Nid yw TAW yn berthnasol i'r math hwn o ffi. Ar ôl derbyn eich cais, bydd syrfëwr yn cysylltu â chi, gan drefnu i ymweld â'r eiddo a gwerthuso'r hyn a wnaed (gall fod angen agor y gwaith i'w archwilio). Os bydd angen gwaith adfer, nodir hwn ac unwaith y bydd wedi'i gywiro, rhoddir tystysgrif rheoleiddio.

Nodwch sut hoffech dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig.

2. Manylion yr ymgeisydd

Yr ymgeisydd yw'r person y gwneir y gwaith ar ei ran, sef perchennog yr adeilad.

3. Manylion yr asiant (y person sy'n cyflwyno'r cais ar eich cyfer – os yw'n berthnasol)

Yr asiant, os yw'n berthnasol, yw'r person a gyflwynir y cais ar ran yr ymgeisydd. Yn yr achos hwn, anfonir pob gohebiaeth at yr asiant.

4. Lleoliad y gwaith adeiladu (os yw'n wahanol i gyfeiriad yr ymgeisydd)

Nodwch y cyfeiriad neu'r lleoliad lle gwneir, neu lle gwnaed, y gwaith a ddisgrifir yn rhan 5.

5. Gwaith adeiladu neu waith arfaethedig i'w reoleiddio

Rhowch ddisgrifiad llawn o'r gwaith; mae hyn yn bwysig gan y rhoddir tystysgrif gwblhau i'r gwaith a ddisgrifir yn unig. Ar gyfer ceisiadau rheoleiddio'n unig, nodwch ddyddiad pan wnaed y gwaith. Gallai defnydd presennol neu arfaethedig gynnwys annedd, siop, swyddfa, safle diwydiannol ayyb. Nodwch fanylion sut gwaredir dŵr gwastraff ac arwyneb, fel draeniau preifat, prif garthffos, tanc septig, neu ffos gerrig ayyb. Rheolir pob adeilad heblaw am anheddau syml o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

6. Gwaith trydanol

Ni reolir gwaith dibwys fel gosod pwynt socedi neu switsh goleuadau newydd ar gylched presennol o dan y Rheoliadau Adeiladu. Gellir gosod pwyntiau goleuadau a phwyntiau socedi ychwanegol hefyd mewn cylched bresennol, ar yr amod nad ydynt yn y gegin neu leoliad arbennig arall, fel ystafell ymolchi, pwll nofio, a garej neu adeilad allanol, ayyb.

Bydd pob gwaith trydanol domestig arall, fel ychwanegu cylched newydd â system bresennol neu mewn lleoliad arbennig fel ystafell ymolchi, pwll nofio, a garej neu adeilad allanol, ayyb, yn amodol ar y Rheoliadau Adeiladu. Lle gwneir gwaith trydanol gan berson cymwys sydd wedi'i gofrestru drwy gynllun hunanardystio Rhan P, ni chodir tâl ychwanegol. Lle gwneir y gwaith trydanol fel rhan o waith arall fel estyniad y gall trydanwr cymwys roi tystysgrif BS7671 i ardystio'r gwaith, ni chodir tâl ychwanegol. Os cyflwynir cais i Reoli Adeiladau i archwilio'r gwaith, bydd tâl ychwanegol yn daladwy.

7. Ffioedd

Nid yw'r holl ffioedd yn daladwy ar gyfer pob cais.

Mae Ceisiadau Cynlluniau Llawn yn amodol ar ffi gynllunio wrth gyflwyno'r cais a chaiff ffi archwilio ei hanfonebu pan fydd y gwaith yn dechrau.

Mae ffi Hysbysiad Adeiladu'n daladwy'n llawn pan gyflwynir cais. Dylech fod yn siŵr y bydd y gwaith yn cael ei wneud cyn cyflwyno'r cais gan nad yw ad-daliadau ar gael.

Mae ffi reoleiddio'n daladwy'n llawn pan gyflwynir cais. Sylwer os nad yw'n bosibl rhoi tystysgrif ar gyfer y gwaith, nid yw ad-daliadau ar gael.

Mae ffioedd ychwanegol sy'n daladwy ar gyfer gwaith archwilio trydan yn daladwy'n llawn pan gyflwynir cais.

Eithrir gwaith ar gyfer pobl anabl rhag ffioedd, ar yr amod bod yr holl waith adeiladu perthnasol at y dibenion canlynol yn unig: darparu mynediad i'r person anabl drwy fynedfa i'r adeilad neu unrhyw ran ohono, neu allanfa ohono; neu ddarparu llety neu gyfleusterau a fwriedir i hybu iechyd, diogelwch, lles neu gyfleuster y person anabl.

Sylwer: ystyr '**person anabl**' yw person sydd o fewn unrhyw un o'r disgrifiadau pobl roedd Adran 29 (1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, fel y'i hestynnir drwy Adran 8 (2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959, yn gymwys, ond gan ddiystyru'r diwygiadau a wnaed drwy baragraff 11 Atodlen 13 o Ddeddf Plant 1989. Disgwylir i Adran 66 (2), Atodlen 10 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 ddiddymu'r geiriau yn Adran 8 (2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959, sy'n estyn ystyr person anabl yn Adran 29 (1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, o diwrnod a bennir.

8. Ceisiadau Cynlluniau Llawn

Mae caniatáu amodau'n ein galluogi i ymdrin â'ch cais yn fwy effeithlon. Gellir ymdrin â mân ddiffygion drwy osod amod, heb eich gorfodi i newid cynlluniau.

Mae'r Ddeddf Adeiladu'n caniatáu pum wythnos i benderfynu ar gais "Cynlluniau Llawn". Ein nod yw prosesu pob cyflwyniad cyn gynted â phosibl. Mewn rhai achosion, gallwn ofyn am fwy o wybodaeth gennyich. Er mwyn rhoi amser i chi gael yr wybodaeth hon, rydym yn awgrymu y dylech gytuno ar yr estyniad o bum wythnos i ddau fis. **Sylwer na fydd yn achosi oedi wrth i ni brosesu eich cais.**

9. Datganiad

I'w lofnodi a'i ddyddio gan yr ymgeisydd neu'r asiant.